# y tincer

85c | Rhif 485 | Ionawr 2026



Eira mawr t.13

Cardiau Tegwyn



t.19

Menter newydd



t.5

# BLWYDDYN NEWYDD DDA!

**Da gweld yr arfer o hel calennig yn dal yn digwydd yn y fro. Diolch i'r rhain am gadw y traddodiad yn fyw.**



Alaw, Alys a Lisa yn Llandre



Ifan, Twm a Dafi Ellis yng Nghwmrheidol.

Calennig yn gyfan
ar fore dydd Calan;
un, dau, tri,
blwyddyn newydd dda i chi.
Anhysbys



Elen ac Efa ym Mhenrhyn-coch.



Manon ac Elsi Wynn yn ardal Penrhyn-coch a Capel Bangor. Roedd Elsi hefyd wedi gwneud taflenni lliwgar i bawb yn dweud Blwyddyn Newydd Dda!



Ifan a Myfi ym Mhenrhyn-coch

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Lynwen Evans**, Llawr y Glyn, Lôn Glanfred, LlandreSY24 5BY
☎ 01970 822322
Ebost: levans100@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Chwefror: Dyddiad cau** Chwefror 2 **Dyddiad cyhoeddi** Chwefror 18

**Sylwer – oherwydd amgylchiadau na fydd modd sicrhau cynnwys dim ddaw yn hwyr yn y rhifyn yma**

**IONAWR**

7- MAWRTH 16 Arddangosfa Gwlân gan Hefin Jones yn Cletwr , Tre'r-ddôl

16 Nos Wener Mari Lwyd yn Aber: dathlu'r Hen Galan gyda'r Fari Lwyd; gyda Band Twmpath Aberystwyth. 6.30 Bandstand; 7.00 Bank Vault; 7.45 Ship & Castle; 8.30 Llew Du

21 Nos Fercher Richard Crowe yn sôn am gyfieithu Ceir ac anifeiliaid (Helle Helle) straeon byr o'r Daneg Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

24 Nos Sul Ymlaen Mimosa; cyngerdd - casgliad caneuon o'r sioe gerdd newydd gan Rhydian Meilir ym MOMA Machynlleth am 7.30 £15

29 Nos Iau Beti a Phobol Ceredigion - Gillan Elisa Thomas, Ifan Jones Evans a John Meredith. Noson Archif Ddarlledu Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru am 19.00

31 Nos Sadwrn Noson gyda Steve Eaves a Rhai Pobl yng Nghanolfan Arad Goch am 73.0 Yr elw i gyd at Gymorth Meddygol i Balesteiniaid /MAP Tocynnau: £15 i'w cael o Arad Goch, Siop Inc neu gan Gwenan Creunant.

**CHWEFROR**

18 Nos Fercher Andrew Green Cader Idris a'r artistiaid Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

19 Nos Iau Mewn Cymeriad yn cyflwyno Waldo yn Stiwdio Perfformio, Canolfan y Celfyddydau am 19.45 £14 (£10)

20 Nos Wener Llwch Oged - dathlu gwaith Vernon Jones Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30

28 Dydd Sadwrn Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth

**Cyfrol 'goll' y Tincer Tlawd**

Annwyl Olygydd,

'Rwy'n deall bod *Y Tincer* wedi'i enwi ar ôl teitl un o'r hunangofiannau a ysgrifennwyd gan Tom MacDonald (1900-1980), a aned yn Llandre ac a ysgrifennodd am ei fywyd cynnar yno ac yn Bow Street ac yn Ysgol Ardwyn yn *Y Tincer Tlawd* (Dinbych, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1971) (wedi'i gyfieithu gan Haydn Morgan) = *The White Lanes of Summer* (Llundain, Macmillan, 1975) ac yn *Gwanwyn Serch* (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1982) a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan W. J. Gruffydd, 'Elerydd' = 'The Road to Tomorrow' (Teipysgrif yn LlGC).

Deallais yn ddiweddar i un o drigolion Bow Street – Woodward Owen - dalu ei ffioedd ysgol. Cododd Tom ddigon o arian i gyhoeddi cyfrol o farddoniaeth, a defnyddiwyd yr elw ohoni i dalu rhywfaint o'r ffioedd, naill ai i Ardwyn neu i Brifysgol Aberystwyth. Yn ôl Tom MacDonald, crybwyllwyd y gyfrol mewn papurau newydd lleol - cefais hyd i un stori mewn rhifyn o'r *Cambrian News* ond nid wyf wedi gallu dod o hyd i deitl y gyfrol mewn unrhyw lyfrgell nac archif. Tybed oes rhywun o ddarllenwyr y Tincer yn gwybod mwy am hyn? Oes unrhyw gopïau wedi goroesi?

Yn gywir
**Michael Freeman**
Michael.freeman9@btinternet.com

**Dathliad arbennig – 150 oed**

Mae pawb sy'n gysylltiedig ag Ysgol Rhydypennau – y disgyblion, yr athrawon, y prifathro a gweddill y staff – wedi dechrau paratoi at ddathlu pen blwydd yr ysgol arbennig hon yn 150 mlwydd oed, drwy chwilio am bethau diddorol yn hanes yr ysgol. Mae Neuadd Rhydypennau yn cydweithio â'r ysgol i greu arddangosfa fydd i'w gweld yn y neuadd ac yn yr ysgol.

Yn ogystal â hyn, mae'r gwaith wedi dechrau ar greu llyfr deniadol, gyda'r holl broses yn gyfle unigryw i'r plant ddysgu sut mae llyfr yn cael ei greu, fesul cam. Y nod yw cyhoeddi, lansio a gwerthu copïau o'r llyfr arbennig yng ngarddwest Ysgol Rhydypennau tua diwedd Mehefin.

Byddaf yn gweithio ar y ddau brosiect, ond byddaf angen eich help chi, yn drigolion, rhieni a chyn-ddisgyblion o bell ac agos – o bob oed! Dewch â'ch atgofion a'ch lluniau i Stafell Leri, Neuadd Rhydypennau 10.30–12.30 fore Sadwrn 31 Ionawr, a nos Iau 7.00–9.00 ar 5 Chwefror. Edrychaf ymlaen yn fawr at eich gweld.

Diolch yn fawr,
**Gordon Jones**
gordon@wern.cymru
Y Wern, Pen-y-garn, Bow Street SY24 5BQ
01970820361

# 30 mlynedd yn ôl



Siôn Corn ym mharti Ysgol Sul Noddfa. Llun: Vaughan Griffiths (O'r *Tincer* Ionawr 1996)

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2025

**£25** (Rhif 19) – Cennydd Davies, Capel Dewi
**£15** (Rhif 240) – Teulu Hughes, Aberystwyth
**£10** (Rhif 143) – Maldwyn Williams, y Borth

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880 228 / 07816 204 616 neu ar ebost bethanbebb162@gmail.com

Diolch o galon am y rhai sydd wedi newid eu harcheb banc yn barod ac hefyd y rhai wedi cynnyddu y swm. Cofiwch fod rhaid gwneud y newid cyn diwedd Rhagfyr. Diolch eto.

## Dolau

**Diolch**
Hoffai Dan Mason, Awel y Coed, ddweud Diolch yn fawr i bob un a roddodd anrheg, carden neu ddymuniad da ar achlysur ei ben blwydd yn 90 ar Sul, 21ain o Ragfyr

Fe gafodd barti Pen blwydd yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch ar y dydd, a gadwyd yn gyfrinach oddi wrtho nes y funud olaf, pan ddaeth teulu a ffrindiau at ei gilydd i ddathlu. Yr uchafbwynt oedd adloniant gan Barti Camddwr. Diolch mawr eto iddynt am berfformiad gwych.



Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd. Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

**FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB**

ENW LLAWN ______________________

CYFEIRIAD ______________________

______________________

CÔD POST ______________________

RHIF FFÔN ______________________

**TALIADAU**
Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu siec ☐ Archeb banc

**DATGANIAD**
*Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn I mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol am 10 mis. Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer. Mae'r flwyddyn yn rhedeg o Ionawr 1af i Ragfyr 31.

Llofnod ______________________

Dyddiad ______________________

**Dychwelir y ffurflen i bethanbebb162@gmail.com neu Bethan Bebb Penpistyll, Cwmbrwyno, Aberystwyth. SY23 3PG**

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Ionawr*

**18** 10.30 Watcyn James – Bethel (A) yn ymuno

**25** 10.00 Densil Morgan yn Seion – OEDFA YR OFALAETH
5.00 Oedfa hwyr undebol yn St Pauls Aberystwyth

*Chwefror*

**1** 2.30 Oedfa gymun Peter Thomas

**8** 10.30 Peter Thomas

**15** 10.30 Watcyn James

**22** 10.30 Noa Evans

**Clwb Sul 10.30**

*Ionawr*

**18**

**25**

*Chwefror*

**22**

## Horeb

Cynhaliwyd oedfa Nadolig Horeb brynhawn Sul Rhagfyr 20 pan berfformiwyd drama Y Nadolig, heddiw a ddoe - Nadolig 2025 gan blant y Clwb Sul diolch i Wendy Reynolds a Manon Evans a chafwyd eitemau gan Gôr Merched Bro Dafydd dan hyfforddiant a chyfeiliant Nia Jenkins. Cyfeiliwyd hefyd gan Eleri James a Ceris Gruffudd. Cafwyd ymweliad gan Siôn Corn trwy gydweithrediad Richard Owen a darparwyd paned i gael cyfle i gymdeithasu ar y diwedd diolch i Eirlys James Davies ac eraill. Diolch i Mairwen Jones am gynorthwyo gyda'r addurno. Fore'r Nadolig daeth tua ugain i oedfa gymun am 9.00 dan ofal y Parchg Judith Morris. Cyfeiliwyd gan Sara Jenkins.





**Marwolaeth**

Trist oedd clywed am farwolaeth Eluned Mai Porter, Bridgnorth a Llangadfan ar ddydd Mercher 5ed o Dachwedd yn 92 mlwydd oed, Roedd yn ymwelydd cyson â Phenrhyn-coch ac yn mynychu Cymdeithas y Penrhyn a theithiau Cymdeithas Edward Llwyd. Bu'r angladd ar Ragfyr 9fed yn Eglwys Llangadfan. Derbyniwyd rhoddion i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn trwy'r ymgymerwr RG Peate, Cyfarwyddwr Angladdau, Y Trallwng. Ffôn 01938 559 256.


**Cymdeithas y Penrhyn**

Cynhaliwyd y blygain yn Eglwys St Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn nos Iau 18 Rhagfyr. Gweinyddwyd gan y Parchg Lynn Rees yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg Ddr Watcyn James a chymerwyd rhan gan Parti'r Penrhyn; Marianne Jones-Powell; Daniel Huws; Pedwarawd Glanrafon – 2 barti o Gôr y Cynhaeaf, Aberteifi; Linda Jones; Côr CYD; Pedwarawd Llandre; Cynog Dafis; Trefor Puw a Rhiannon Ifans a Robat Edwards. Eirwen Hughes oedd wrth yr organ. Aeth y casgliad – £407.10 tuag at Tir Dewi. Recordiwyd y gwasanaeth gan Gwmni Cardinal ar gyfer ei ddarlledu ar Ganiadaeth y Cysegr ar Radio Cymru. Clywyd un rhaglen brynhawn Sul 28 Rhagfyr a darlledir rhaglen arall ymhen y flwyddyn. Paratowyd bwffe yn Neuadd yr Eglwys wedyn lle caed cyfle i gymdeithasu.



**Ennill Gwobr**

Llongyfarchiadau i Mel Brochoven o Aber Catering (@ AberCatering) am ddod yn ail orau yng nghategori y Gwasanaeth Arlwyo Gorau yng Ngwobrau Bwyd y Gorau i Gymru 2025. Mae'r busnes yn darparu ar gyfer brecwastau, te prynhawn, digwyddiadau corfforaethol, priodasau, pen blwyddi, bedyddiadau, te angladdau, hurio cogydd preifat ac ymlaen.



**Bore coffi**

Cynhelir boreau coffi nesaf Neuadd y Penrhyn boreau Mawrth 20 Ionawr, 3 ac 17 Chwefror o 10.00-11.30.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Haf Morgans a Will, Caernarfon ar enedigaeth mab – Noa Gwyn – ar 28 Rhagfyr. Ŵyr i Aled a Glenda Morgans, Garth a nai i Lewis.



Brownies Penrhyn-coch yng nghwmni Siôn Corn.

## Clwb Pêl-Droed Penrhyn-Coch

**Tim 1af**

*Rhagfyr*

27 Cegidfa (Guilsfield) 0 Penrhyn-coch 1

31 Penrhyn-coch 1 Rhuthun 1

**Eilyddion**

*Rhagfyr*

13 Eilyddion Penrhyn-coch 3 Turfs Tregaron 3

*Ionawr 2026*

3 Eilyddion Penrhyn-coch 0 Llanbedr Pont Steffan 3

**Cartref newydd**

Dymuniadau gorau i Seren a Serge yn eu cartref newydd yng Nger-y-llan.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Dr Wadad Williams, Cae Mawr , gweddw Irfon Williams fu farw ar 24 Rhagfyr. Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ar 15 Ionawr.

**Canu carolau**

Daeth criw bychan ynghyd eleni eto i ganu carolau i'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi. Cafwyd sgyrsiau difyr ar bob aelwyd a chwmni difyr wrth grwydro'r pentre. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni drwy gysylltu ag Eleri ar 07812 855719. Adeg y Pasg y bwriadwn ganu eto.

**Cinio'r Gymuned**

Bydd cinio nesaf y Gymuned amser cinio dydd Mercher 28 Ionawr yn Neuadd y Penrhyn pan weinir pryd De Affrica - babotie a reis melyn a phwdin malva a hufen ia am £8 y pen. I gadw lle cysylltwch gydag Eileen ar 01970 820390

## Trefeurig

**Menter newydd**



Gall y mis yma fod yn gyfnod prysur i fenter newydd gŵr o Ben-bont Rhydybeddau wrth i bobl wneud addunedau blwyddyn newydd a phenderfynu colli pwysau ar ddechrau blwyddyn newydd. Agorodd Lewis Ellis-Jones – ddaw o Bow Street yn wreiddiol ond sydd yn byw ym Mhen-bont bellach gampfa newydd The Gym ym mis Medi yn Stryd y Ffynnon, Aberystwyth yn safle yr hen Swyddfa Bost.

Mae'n cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau ar gyfer gwahanol oedrannau – plant, pobl ifanc, Mamau Cryf, Cryfder i bawb, Hyrox, Ffitrwydd gweithredol ac mae hefyd yn cynnig sesiynau un i un neu grŵp. Mae y gym nawr yn cynnig gym agored i bobl. Dewch i drio dosbarth am ddim!

Gellir cysylltu â'r Gym ar Facebook, Instagram neu drwy eu gwefan https://www.thegym.cymru. Dymuniadau gorau iddo ar y fenter.




GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials Ltd
• COFEBAU ARBENNIG
•BEDDARGRAFFIADAU
• ADNEWYDDU O SAFON
• ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am rhagor o fanylion
James Memorials, Vicarage Crossing, Llandre, Bow Street SY24 5BZ
Ffôn: 01970 820111
jamesmemorials@gmail.com

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-4.30
Sul: Ar gau
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau


## Clwb Pêl-Droed Aberystwyth

Mae Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth wedi datgelu'i grys newydd ar ôl llofnodi partneriaeth gyda phrifysgol y dref. Bydd y dillad chwaraeon yn cael eu gwisgo gan dimau cyntaf menywod a dynion y clwb.

Daw'r newyddion ar ôl i'r Clwb a Phrifysgol Aberystwyth lofnodi cytundeb tair blynedd newydd mewn meysydd gan gynnwys ar wyddor chwaraeon a hybu cyfleoedd i'r gymuned leol.

Bydd y Brifysgol yn parhau'n brif noddwr y Clwb gyda mynediad am ddim i bobl â'i Cherdyn Aber.

Fel rhan o'r cytundeb, bydd chwaraewyr yn cael mynediad at gyfleusterau profi ffitrwydd y Brifysgol a bydd cyfleoedd i fyfyrwyr a staff weithio gyda'r clwb.



Amy Jenkins, Penrhyn-coch a Ben Davies – capteiniaid Menywod a Dynion Clwb Pêl-droed Aberystwyth gyda Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth yr Athro Iain Barber a'r cit newydd

# Atebion Cwis Nadolig Y Tincer

Hwn oedd y degfed cwis ac mae'n amlwg bod taith Y Tincer bach wedi apelio oherwydd cafwyd ymateb rhagorol. Diolch i'r ffyddloniaid am gefnogi'r cwis eleni eto a chroeso cynnes iawn i'r cefnogwyr newydd!

Dyma'r atebion cywir

1. Yn Tŷ Mawr **Penrhyn-coch** gafodd y Tincer ei betrol ar ôl bod yn y tŷ bach.
2. Ym mhentref **Tal-y-bont** mae'r Lolfa, un o fusnesau pwysicaf Cymru.
3. Cloc **Machynlleth** oedd yn cadw rhai ymwelwyr blin ar effro yn ôl y sôn.
4. **Cross Foxes** yw enw'r dafarn.
5. **Dolgellau** yw'r hen dref sirol sy'n enwog am ei Sesiwn Fawr.
6. **Trawsfynydd** yw'r pentref ar y bryn ble mae'r cerflun i Ellis Humphrey Evans sef Hedd Wyn a laddwyd yn Passchendaele.
7. Pentref **Portmeirion** yw breuddwyd y pensaer Clough Williams Ellis.
8. **Porthmadog** yw'r dref gafodd ei henwi ar ôl William Madocks adeiladydd y cob.
9. Yng **Nghaernarfon** y cafodd y Tincer bach sgwrs hefo co (dyn) a fodan (dynes) ar y maes a gwario niwc (ceiniog) o dan Lloyd George. Cynigiwyd Pwllheli fel ateb i'r cwestiwn hwn ond er bod maes ym Mhwllheli a bod cartref Lloyd George yn weddol agos nid yw pobl Pwllheli yn adnabyddus am alw dyn yn co, dynes yn fodan a cheiniog yn niwc.
10. Ystyr y gair **Bethesda** sef enw'r capel a roddodd ei enw i'r pentref ger Chwarel y Penrhyn yw 'tŷ trugaredd'. Ac wrth gwrs, yn ddi-amheuol, magwyd dynion ardderchog yno! Cynigwyd Llandygai fel ateb i'r cwestiwn hwn ac er bod y pentref hwnnw hefyd yn agos i Chwarel y Penrhyn a bod Hogia Llandygai yn ddynion ardderchog galwyd Llandygai ar ôl Sant Tegai. A gyda llaw, o ran diddordeb nid o Landygai oedd yr Hogia'n dod ond o bentref Tal-y-bont gerllaw!

Llongyfarchiadau i'r rhai a gafodd pob un yn gywir a rhoddwyd eu henwau i gyd yn het y golygydd a'r cynnig cywir a dynnwyd allan ac yn ennill gwobr o £15 oedd cynnig Geraint Evans, 95 Bryncastell, Bow Street.

Llongyfarchiadau mawr iddo a diolch i bawb a gefnogodd y cwis. Diolch yn fawr i Gareth William Jones am drefnu cwis eto eleni ac am noddi y wobr a diolch i'r rhai fentrodd gystadlu.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2026

**24-25 EBRILL, 2026**

**Testunau llenyddol**
Dyma destunau cartref yr Eisteddfod ; y beirniad (1-10) yw Eurig Salisbury, Aberystwyth.  Dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost i Ceris.Gruffudd@gmail.com cyn 7 Ebrill 2026.

1 Cadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell ar y testun 'Gofyn'. Cadair fach a £50.00 Y gadair a'r wobr ariannol yn rhoddedig gan y teulu er cof am Dr W Brian L Evans.
2 Englyn i anifail: £10.00
3 Telyneg – Am dro. £10.00
4 Cerdd ar fydr ac odl – Cydweithio. £10.00
5. Emyn i blant £10.00. Bydd cystadleuaeth yn 2027 i gyfansoddi tôn i'r emyn buddugol.
6 Limrig yn cynnwys y llinell: Fe euthum i brynu banana £10.00
7 Brawddeg: CRONFA. £10.00
8 Stori fer: Y tro cyntaf. £10.00
9 Erthygl i bapur bro: Dathliad £10.00
10 Adolygiad o lyfr Cymraeg a gyhoeddwyd er 2020. £10.00
11 Tlws yr Ifanc (Cerddorol) i rai dan 21 oed:
Cyfansoddi darn cerddorol lleisiol neu offerynnol, Gellir eu derbyn naill ai fel ffeiliau pdf neu mp3 neu gyfuniad o'r ddau.

**Beirniad**: Meinir Richards

Tlws a £20.00 Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens. Gwobrwyir ar y nos Wener.


*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***


YTincer@googlemail.com


Eglwys Efengylaidd
Aberystwyth

CERDD, CÂN A CHLONC

Noson o adloniant gan aelodau a ffrindiau'r Eglwys

Neuadd Gymunedol Llanfarian
Nos Wener, 30 Ionawr 2026 am 7.00yh

Mynediad am ddim ond bydd croeso i gyfrannu at elusen HAHAV, Aberystwyth.
Darperir paned a chacen

CROESO MAWR I BAWB!

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlo â Lyn Evans, Deilyn, a'r teulu ar farwolaeth brawd yng nghyfraith i Lyn – Ian Cole yn Bow Street.

**Brysiwch wella**
Gobeithio fod Elwyna Davies, Tyncwm yn gwella ar ôl cael codwm yn ddiweddar.

Gwellhad buan hefyd i Ann Hughes, Golygfa ar ôl cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Marchnad Aberystwyth**
**3 Ionawr 2026**
(965 – gwerthwyd y cyfan )
Blwyddyn Newydd Dda i bawb! Arwerthiant dymhorol lai gyda 14 o brynwyr yn bresennol. Gwerthodd popeth yn dda gyda llawer mwy o famogiaid cryf yn cael eu cynnig. Roedd y fasnach ŵyn stôr wedi gwella tipyn ers yr arwerthiant ddiwethaf gyda llawer o gynhyrchwyr yn gwerthu eu llwyth olaf. Arwerthiant dda gyda phopeth yn rhwydd i'w gwerthu. Roedd y prisiau fel yr isod:
Mamogiaid lladd (311)
Cyf £109
Mwy £228 gan Jones, Felinhen, Capel Dewi
Hyrddod lladd (20)
Cyf £141
Mwy £232 gan Williams, Tŷ Newydd, Llangwyrfon
Ŵyn stôr (634)
Cyf £87.50
Mwy £180 gan Jones, Trefaes Isaf, Llangwyryfon

Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.




CPD Penrhyn-coch

Croeso cynnes i bawb o bob oedran, yn deuluoedd ac yn unigolion.

Y CLWB
sef. 1965

Prydau cartref, Cinio dydd Sul. Archebwch fwrdd neu gallwch gael bwyd wedi ei gludo.


Edrychwn ymlaen at eich croesawu
01970 828 992



Arbenigwr glanhau popty a charped
Phil 07534 213229
cwtch.mw@outlook.com
PRO-TEK CLEANING SOLUTIONS



WEST WALES ANTIQUES ABERYSTWYTH
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
7 Stryd Portland Uchaf, Aberystwyth SY23 2DT
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com





Probert & Williams eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
Archwiliadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
OPTICIAN AWARDS ZEISS Cymraeg



DIGIDA
Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.
Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.
Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.

Gwefannau
WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics

Cyfryngau Cymdeithasol
Facebook, Instagram, TikTok

Marchnata
Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.

Gyda mwy o gyrsiau yn cael eu ychwanegu yn rheolaidd.
ARFOR

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Ar fap Lewis Morris o gwmwd Perfedd a luniwyd tua 1744, cofnodir yr enw *Rhyd yr Hogfaen* heb fod ymhell o lyn Blaen Melindwr, ar y ffordd gefn o Benrhyn-coch i Bonterwyd. Ymddengys ei fod yn cyfeirio at ryd ar lednant i afon Melindwr, ger ceg y ffordd arw a'r llwybrau sy'n arwain drwy'r coed i Nantyrarian.[1]




**Lewis Morris, 'A plan of the Mannor of Perveth', [1744].**
**Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Cadarnheir y lleoliad hwnnw mewn map llawysgrif o arglwyddiaeth Nantyrarian yn 1834,[2] er bod map modfedd yr Arolwg Ordnans o'r un cyfnod yn ei osod ar safle argae Blaen Melindwr heddiw.[3]

Ceir cyfeiriadau cynharach at le o'r enw *hogfaen* ym mhlwyf Llanbadarn Fawr ym mhapurau stad Hendrefelen: 'that mesuage … called *rhogfaen*' yn 1666,[4] ac '*Y Rhogvaen*' yn 1711,[5] ac er ei fod yn cael ei enwi ochr yn ochr â lleoedd yng Nghwm Rheidol a chyffiniau Ponterwyd, mae'n amhosibl gwybod a ellir ei uniaethu â *Rhyd yr Hogfaen*, Blaen Melindwr. Yn yr un modd, mae'n amhosibl barnu beth yw'r berthynas â *hanerey yr hogvaen* a gofnodwyd yn un o weithredoedd stad Gogerddan yn 1565.[6]

Ond beth yw ystyr ac arwyddocâd y gair *hogfaen*? Mae'n gyfuniad o fôn y ferf *hogi* 'rhoi min neu awch (ar)' a'r enw *maen* 'carreg', ac felly'n golygu 'carreg neu galen hogi' (*whetstone* yn Saesneg). Rhaid bod y rhyd hon yn adnabyddus am gerrig o'r fath. Ers talwm, pan oedd hogfeini yn hanfodol ar gyfer hogi arfau, offer amaethyddol, ac ati, byddai enwau lleoedd yn bwysig er mwyn dynodi'r mannau lle byddai cyflenwad ohonynt ar gael.

Yr un fyddai arwyddocâd yr enwau lleoedd *Pantyrhogfaen* a *Thalwrnhogfaen* i'r de-ddwyrain o Lanrhystud, a *Brynyrhogfaen* i'r de-ddwyrain o Gwrtnewydd, yng Ngheredigion, a *Nantyrhogfaen*, un rhwng Pumsaint a Llanwrda, ac un arall i'r de-orllewin o Lanymddyfri, sir Gaerfyrddin.

Paratowyd gyda chefnogaeth
**Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**
**a Geiriadur Prifysgol Cymru**
**https://www.geiriadur.ac.uk/**

1. SN71858324.
2. LlGC, Wm Morgan, 'A Map of the Lordship of Nant-yr-Arian', 1834.
3. Map 1" Arolwg Ordnans, hen gyfres, 59 SE (1837).
4. LlGC, Hendrefelen 59 (20 Hydref 1666).
5. LlGC, Hendrefelen 60 (18 Rhagfyr 1711).
6. LlGC, GAB 3/1/4/21 (28 Medi 1565).

# Adolygiad

Ruth Richards. Lobsgows - cariad y Cymry at fwyd; lluniau gan Buddug. Gwasg Carreg Gwalch, 2025. 150t £12.99

Yn ei rhagair i'r llyfr hwn mae'r awdur yn egluro'r hyn NAD yw'r llyfr: 'Dylwn bwysleisio o'r dechrau nad ydw i'n fawr o gwc, felly peidiwch â disgwyl myrdd o ryseitiau gwreiddiol... Tydw i ddim yn hanesydd cymdeithasol chwaith... Ac er mod i'n pwyso'n drwm ar atgof, tydi hwn ddim yn unrhyw fath o hunangofiant.' Beth yw bwriad yr awdur felly? Mewn 24 o benodau byr a difyr mae hi'n trafod perthynas y Cymry efo bwyd o ddiwedd Oes Victoria, pan gafwyd y llyfrau coginio cyntaf yn Gymraeg, hyd at y presennol. Dyma i chi ddetholiad o deitlau rhai o'r penodau: Lobsgows; Llyfr Ryseitiau fy Mam; Pwdin Reis; Siopa; Llestri Te; Caffis; Bara Brith; Ffedog, Barclod, Brat; Cinio Ysgol; Technoleg a Thaclau; Dynion mewn Cegin.

Mae yma gryn dipyn o atgofion yn y llyfr, ond maen nhw wastad yn arwain i drafodaeth ehangach. Magwyd yr awdur yng Nghemaes, Môn, lle'r oedd ei thad, y Parchg Emlyn Richards, yn weinidog




gyda'r Hen Gorff am flynyddoedd lawer. Ond dau o Lŷn oedd ei rhieni, felly mae yma sôn am Nain Lôn, mam ei thad a Nain Penclogwyn, mam ei mam, a'r mathau o fwyd yr oedden nhw'n ei baratoi. Mae'r awdur yn ymwybodol iawn o'r newid mawr a fu mewn coginio a'r mathau o fwydydd a fwyteid gennym ni Gymry ar draws y pedair neu bum cenhedlaeth ers Oes Victoria.

Roedd pwdinau berwi a jams a phicls a tsiytnis cartref yn gyfarwydd i lawr aelwyd tan y 1960au, ond yn llai cyfarwydd wedi hynny. Roedd llawer mam yn gorfod gweithio'n galed iawn i fwydo gŵr a thyaid o blant, a hynny ar ychydig iawn yn aml. Hefyd, roeddynt yn gorfod gwneud hyn i gyd heb stof drydan nag oergell na rhewgell. Gwaith trwm yn wir. Fe wnaeth dyfodiad trydan wahaniaeth mawr iawn i fyd y gegin, a rhaid cofio na wnaeth trydan ddim cyrraedd llawer o ardaloedd gwledig tan y 1950au a'r 1960au.

Mae'r awdur yn trafod pynciau pwysig fel hyn mewn arddull fywiog a ffraeth. Mae'r gymysgedd o atgofion, peth hanes a sylwadau craff gyda sawl pinsiad o hiwmor yn gweithio'n dda ac yn gwneud y llyfr yn ddifyr i'w ddarllen.

Rhaid nodi hefyd fod y llyfr wedi'i gynhyrchu'n ddeniadol dros ben. Ceir lluniau syml, hyfryd gan Buddug Humphreys drwy'r llyfr, ac mae fformat.

**Richard Owen**

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Erin Ellis Barr ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth Cogurdd. Cafodd y profiad o gynrychioli Ysgol Pen-llwyn i lawr yn Ysgol Bro Teifi. Mae ei brawd Carn yn brysur yn chwarae pêl-droed gyda tîm ieuenctid Aberystwyth ac mae Ifan a Twm Ellis hefyd yn chwarae rygbi gyda ieuenctid clwb rygbi y dref.

**Newid aelwyd**
Dymuniadau gorau i Catrin a Luke, Sam Magi a Tomos yn eu cartref newydd yn Nhal-y-bont. Mae yn golled fawr i Gwmrheidol i golli teulu bach ifanc; gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartef newydd.

Roedd yn noson arbennig ym mhlwyf Melindwr nos Sul 30 o Dachwedd. Casglodd nifer dda o drigolion y plwyf yn y neuadd cafwyd cwpanaid o de a a coffi ac yna aeth pawb yn fintai fawr ar hyd y ffordd i ymyl yr Eglwys i oleuo y goeden Nadolig. Yn dilyn canu carolau aeth pawb yn ei ôl i'r Neuadd lle roedd gwin poeth a mins peis yn ein disgwyl. Daeth Siôn Corn heibio a rhoddodd anrheg bach i bob plentyn. Diolch yn fawr i aelodau Cyngor Cymuned Melindwr am y trefniadau trylwyr ac am eu haelioni. Roedd yn noson hyfryd i r hen a r ifanc! Hyfryd hefyd oedd gweld y Neuadd ar ei newydd wedd gyda toiledau moethus wedi cael eu rhoi yn eu lle.

**Urdd y Gymuned**
Daeth nifer o aelodau ynghyd i Ganolfan Statkraft i addurno coeden ar gyfer gŵyl Coed Nadolig Eglwys Dewi Sant Capel Bangor. Roedd Mike a Gill, Hafod y Glyn, wedi paratoi adnoddau ar ein cyfer a chafwyd dipyn o hwyl yn gwneud yr addurniadau. Edrychwn ymlaen i weld y goeden yn ei lle. Diolch i Mike a Gill am baratoi y cyfan ac am yr hyfforddiant ac i Nerys ac Ann am wneud y te.

Bu cyfnod y Nadolig yn brysur iawn eleni eto. Cynhaliwyd y parti blynyddol yng Nghanolfan Statkraft ac mi roedd y lle yn llawn. Cafwyd bwyd blasus iawn wedi ei gyfrannu gan yr aelosdau. Daeth Sion Corn heibio gyda anrheg bach a gorffennwyd y noson gyda raffl a canu carolau. Diolch i bawb am bob cymorth i wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Noson hyfryd o fwyta a chymdeithasu.



Parti Nadolig Urdd y Gymuned


Plant yr ardal yn mwynhau y parti gyda Sion Corn

Nos Lun aeth criw o bobl ieuanc yr ardal o amgylch i ganu carolau. Hyfryd gweld y traddodiad yma yn parhau, mae aelodau y gymuned wedi bod yn canu o amgylch yr ardal ers dros hanner can mlynedd ac wedi casglu miloedd i elusennau lleol. Tipyn o gamp i gymuned mor fach. Eleni bydd y swm derfynol yn cael ei drosglwyddo i elusen y Frigâd Dân i ddiolch iddynt am eu cymorth adeg y tanau gwyllt yng Nghwmrheidol nôl yn yr haf.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus iawn i Dei Evans, Tŷ Poeth a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig yn 90 oed ar Ionawr y 18fed.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV

Trydanol
PV Solar
Storfa bateri
Pweru cerbydau trydan

GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey



## Bow Street

**Suliau y Garn**
**10.00**
*Ionawr*
18 John Roberts - rhithiol
25 Peter Thomas

*Chwefror*
1 Noddfa
8 Rhidian Griffiths
15 R.O. Roberts (rhithiol)
22 Wyn Morris

**Noddfa**
*Ionawr*
18 Cyfeillach yng ngofal Mair Lewis
25 Richard Lewis

*Chwefror*
1 Richard Lewis. Y Garn yn uno.
8 Richard Lewis. Cymundeb.
15 Cyfeillach.
22 Richard Lewis

**Gwella**
Da deall fod Bet Evans, Elgar, yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Rhagfyr yn y Wildfowler, Tre'r-ddôl, lle cafwyd pryd Nadoligaidd hyfryd. Noson hwyliog dros ben, bwyd blasus ac wrth gwrs "Secret Santa" i orffen!

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda teulu y diweddar Ian Cole, Y Marian fu farw ar Ionawr 20fed yn Ysbyty Bron-glais, Priod Gwen, tad Helen, Sharon a Christine; dad-cu Rhys, Cynan, Catrin a Gwenno tad yng nghyfraith Aled, David a Robert. Bu Ian a Gwen yn gofalu am Gapel y Garn am nifer o flynyddoedd. Cynhelir angladd preifat a derbynir rhoddion er cof tuag at Uned Dialisis (sieciau yn daladwy i'r elusen) trwy law C T Evans.

Gyda Peter Henley a'r teulu ar farwolaeth ei frawd David ym Mhenzance ar 6 Ionawr.

**Newid aelwyd**
Pob dymuniad da i Carwyn a Lindsay a'r teulu, Maesawelon, yn eu cartref newydd yn Llanilar, ac hefyd i Dewi Huw a'r teulu wrth iddynt symud o Faes Ceiro i Faesawelon.

## Teithiau Cerddwyr Rhydypennau





## Y Garn ym mis Tachwedd



Ar ôl eu Bore Coffi llwyddiannus ar Dachwedd 29ain, daeth aelodau Cymdeithas Chwiorydd y Garn ynghyd brynhawn Mercher Rhagfyr 3ydd i fwynhau paned a minspei ym Mwyty Crefftau Pennau. Nos Wener, Rhagfyr 19eg, tro aelodau'r Gymdeithas Lenyddol oedd hi i ddod ynghyd i gael eu swyno a'u difyrru gan lais a thannau melys Sian James.

Ar Sul cyntaf mis Rhagfyr ymunodd cynulleidfa'r Garn â chynulleidfa Noddfa mewn gwasanaeth dan arweiniad y Parchg Richard Lewis. Ar Ragfyr y 10fed cynhaliodd Ysgol Rhydypennau ei gwasanaeth Nadolig yn y capel, a phrynhawn Sul, Rhagfyr 14eg daeth y gynulleidfa ynghyd yn y prynhawn i oedfa dan arweiniad y Parchg Carwyn Arthur.

Un o fendithion tymor Gŵyl y Nadolig yw'r paratoi ar ei chyfer a'r cymdeithasu cyfeillgar sy'n digwydd yn sgîl hynny, boed hynny yn y capel neu ynghanol berw consiwmerol y byd seciwlar. Enghraifft o hynny yng Nghapel y Garn eleni oedd bod grwp o gantorion wedi bod yn cyfarfod am rai wythnosau ar brynhawniau Mercher, dan arweiniad Alan Wynne Jones, i ymarfer carolau ar gyfer gwasanaeth "Y Gair a'r Geiriau" a gynhaliwyd yn y capel fore'r 23ain o Ragfyr. Y Parchg Ddr Watcyn James arweiniodd yr oedfa honno, a mawr yw ein diolch iddo am agor ein meddyliau wrth ein harwain i ystyried hanesion cyfarwydd y Geni a'r Nadolig.


Am naw o'r gloch ar fore dydd Nadolig braf oedd cael cyfle arall i ddod at ein gilydd yn y Garn, i gyd-ddathlu a chyd-addoli dan arweiniad y Parchg Richard Lewis. Ni fu oedfa yn y Garn fore Sul, Rhagfyr 28ain.

Estynnwn ein cydymdeimlad á theulu'r diweddar Ian Cole a fu ar un adeg yn ofalwr ymroddedig a chydwybodol ar y capel.



# Adolygiad

Richard Tudor *Dyddiaduron Richard Tudor Llysun* Y Lolfa 92t. £12.00




Cyfrol yw hon yn deillio o'r drasiedi deuluol ysgytwol pan laddwyd Richard Tudor mewn damwain fferm ym mis Ebrill 2020. Cyhoeddwyd yr ysgrifau dyddiadurol yma ym mhapur bro *Plu'r Gweunydd* rhwng Mawrth 2015 ac, yn annisgwyl drist, yr olaf ym Mawrth 2020. Maent oll yn gronicl o hanes misol amaethu ar fferm Llysun, yr ymateb i Brexit, argraffiadau Richard Tudor ar wleidyddiaeth a hinsawdd economaidd y byd amaeth. Mae ynddynt hefyd gyswllt lleol cryf a'r gwahoddiad i'r gymuned, yr oedd yn rhan allweddol ohoni, gyfrannu drwy lun neu ambell hanesyn. Mae'n gofnod o wead cymdeithasol Dyffryn Banw a thrwy'r gyfrol ceir cyfeirio at unigolion fel 'Andrew Cefncleisiog, John Maescarneddau' – yr arfer hwn o nodi enw cyntaf yna'r fferm yn adlewyrchu'r gymuned glos 'roedd yn rhan ohoni, a rôl amaeth mewn cymuned wledig a'i diwylliant.

'Roedd yn amaethwr disglair a dawnus, yn Ysgolhaig Nuffield ac yn cyfrannu ar lefel Genedlaethol drwy fod yn aelod o Fwrdd Hybu Cig Cymru. Roedd hefyd yn rhan o'r rhwydwaith gymorth i amaethwyr oedd yn cynnwys Cyswllt Ffermio, Y Sioe Fawr, cymdeithasau glaswelltir, colegau a phrifysgolion. Mae'r gyfrol yn arddangos yn glir ei ymroddiad i ddyfodol y diwydiant amaeth.

Dim ond ffermwr yn meddu ar wybodaeth a'r gallu technegol fyddai'n ystyried newid fferm ddefaid a chig eidion traddodiadol i fferm laeth yn cynhyrchu llaeth yn bennaf o laswellt. Mae'r gyfrol yn cofnodi rhai o'r amrywiol ddarnau gwybodaeth sydd angen i amaethwr ei ystyried wrth wneud penderfyniadau busnes cymhleth a phellgyrhaeddol. Roedd pob amser yn chwilio am syniadau newydd a chyfle i arloesi, ac ar yr un pryd, yn gweld eu hun 'fel amaethwr sy'n cyd-fyw efo natur a'r tymhorau'. 'Roedd yn deithiwr brwd, yn bennaf er mwyn astudio ffurfiau gwahanol o amaethu ac ystyried sut y gellid dysgu o'r rhain. I'r rhai â meddylfryd o'r fath, mae'r gyfrol yn llawlyfr defnyddiol.

Roedd Richard Tudor yn cyfrannu'n gyson i'w ardal - drwy'r clwb pêl droed, drwy fod yn gadeirydd llywodraethwyr yr ysgol a chefnogi Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Banw. Rhain a'i deulu oedd yn bwysig iddo ac mae'r cyfan oll yn ymddangos yn gyson yn ei erthyglau. Mae'r ffaith ei fod person hael ei ganmoliaeth yn amlwg wrth iddo ymdrin â chymeriadau neu wrth fesur a thrafod sefydliadau a syniadau.

Cofnod o'r hyn sy'n digwydd ar y pryd yw'r gyfrol ar ffurf dyddiadur ac o'r herwydd mae dilyniant neu ben draw penderfyniad yn aml ar goll; ond rhaid cofio mai dyna yw natur dyddiadur. O ddarllen y gyfrol ceir proffil cynnes o Richard Tudor a'i gariad at ei fro a'i sefydliadau. Mae'r teyrngedau lu yn adlewyrchu'r golled bersonol a'r anghrediniaeth bod damwain mor echrydus wedi digwydd. Gobeithio bydd y llyfr yn gymorth i gyfeillion a chymuned alaru.

Roedd erthygl olaf Richard Tudor ym Mawrth 2020 yn edrych ymlaen at ddyfodol llewyrchus ac mae deall na fydd yna erthygl arall yn dwysáu tristwch y golled annhymig. Mae'n gyfrol gwerth ei darllen.

**Penri James**

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312


## Dôl-y-bont

**Pen blwydd hapus**

Pen blwydd hapus i Gerallt Evans, Pantydwn yn 90 oed ar 12 Ionawr.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru@gmail.com
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website
Trefeurig8


# Y Borth

## Nofiad San Steffan

Roedd y tywydd yn berffaith ar gyfer y traddodiad blynyddol o fynd i'r môr ar Ddydd Gŵyl San Steffan, gyda'r dŵr yn llonydd fel llyn ac awyr las, di-gwmwl uwchben. Amcangyfrifir fod dros 100 o bobl wedi dod ynghyd eleni i fentro i'r dyfroedd oer cyn ymgasglu o gwmpas coelcerth ar y traeth. Trefnwyd y digwyddiad gan grŵp Amnest Y Borth a chodwyd £325 tuag at waith yr elusen ryngwladol sy'n brwydro dros hawliau dynol ymhob rhan o'r byd.



**Carolau**

Bu criw o ddynion lleol yn mynd o dŷ i dŷ yn canu carolau noswyl Nadolig i godi arian i Ysgol Craig yr Wylfa. Erbyn diwedd y nos, roedden nhw wedi codi cyfanswm haeddiannol iawn o £730. Diolch i'r holl gantorion ac i bawb a gyfranodd at yr achos.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn pob cydymdeimlad â Margaret, Alison a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth John Griffiths ar 28 Rhagfyr. Gŵr, tad, tad-cu a chymydog annwyl. Roedd yr angladd yn un preifat ond daeth y teulu a ffrindiau ynghyd yn nhafarn y Railway ar 9 Ionawr i gofio amdano a rhannu atgofion.

**Arddangosfa Printiau yn Rhuthun**

Bydd gwaith gan Jonah Evans o'r Borth yn rhan o arddangosfa o weithiau print newydd yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun rhwng 24 Ionawr a 22 Mawrth 2026. Mae'r artistiaid i gyd yn raddedigion diweddar o golegau ledled Cymru, gan gynnwys Aberystwyth, Caerdydd, Abertawe a Wrecsam. Mae eu gwaith yn seiliedig ar eu profiadau unigol ac yn dangos y ffyrdd arloesol mae argraffu yn esblygu. Yn ogystal â chynnwys defnyddiau megis persbecs a thecstilau, mae'r gweithiau'n ystyried profiadau o fywyd gwledig yn y Canolbarth, diwylliant Prydeinig Caribïaidd a chynnal ymarfer celf ochr yn ochr wrth weithio fel artist tatŵ.

**Diwrnod Cofio'r Holocost 2026**

Bydd Hyb Cymunedol Y Borth yn cynnal digwyddiad arbennig ar ddydd Gwener 30 Ionawr i gofio'r Holocost. Bydd arddangosfa o eitemau wedi'u curadu gan Jackie Bat-isha sy'n byw yn y pentref. Cafodd ei thad-cu Lieb Nussbaum ei lofruddio yn Auschwitz yn 1942. Bydd rhai o blant Craig yr Wylfa yn dod draw i'r Hyb i weld yr arddangosfa a dysgu mwy am yr hyn ddigwyddodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae Diwrnod Cofio'r Holocost yn ddigwyddiad rhyngwladol sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn ar 27 Ionawr. Y thema eleni yw pontio cenedlaethau. Bydd Canolfan Alun R. Edwards (Llyfrgell Aberystwyth) a'r Bandstand yn Aberystwyth yn cael eu goleuo ar y diwrnod.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn a Christine a Robert Griffiths a'r teulu, Ffosygrafel, ar farwolaeth tad Christine – Ian Cole yn Bow Street.

â Heulwen Lewis, Pen y Wern, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith – Ian Cole, Bow Street.



**RNLI - allan ymhob tywydd**

## Y Parchg Ddr. David Henry Williams (1933-2025)

Trist yw cofnodi marwolaeth Y Parchedig Ganon Dr David H. Williams un oedd yn adnabyddus iawn i nifer o drigolion ardal Aberystwyth a'r Borth. Ganwyd David yng Nghasnewydd ar 29 Mawrth 1933. Treuliodd beth o'i blentyndod yn yr Aifft lle bu ei dad yn gweithio cyn mynychu Coleg y Drindod, Caergrawnt lle graddiodd mewn daearyddiaeth, cyn rhoi oes o wasanaeth i'r offeiriadaeth Anglicanaidd yn y Trallwng (Pool Quay), Ynys Bŷr, Libia a Gwlad Pŵyl. Yn dilyn ei ymddeoliad i Geredigion bu'n cynorthwyo mewn nifer o eglwysi yn yr ardal yn bennaf yn Aberystwyth a St. Matthew, Y Borth.

Roedd David Wiliams yn awdur ac yn ysgolhaig disglair a threuliodd oriau yn ymchwilio yn Ystafell Ddarllen y Llyfrgell Genedlaethol gan ddod yn ffrindiau da gyda nifer o'r staff. Roedd yn arbenigwr ar hanes mynachlogydd Cymru. Roedd Gwlad Pŵyl yn arbennig o agos at ei galon ac fe fyddai'n arwain teithiau yno yn aml o dan nawdd y Lleng Brydeinig – mudiad a roddodd David oes o wasanaeth clodwiw iddo.

Treuliodd ei flynyddoedd olaf yng Ngholeg St. Barnabas, Lingfield, Surrey, cartref i offeiriaid wedi ymddeol. Bu farw ar 13 Hydref 2025. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel y Coleg ar 10 Tachwedd 2025. Byddwn i gyd yn colli David – bonheddwr, cymwynaswr a chwmnïwr difyr. Coffa da amdano.



**David yn arwain gwasanaeth ym mynwent Rakowicki, Krakow, Gwlad Pŵyl. (Mehefin 2010).**

## Pen-blwyddi Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Jane Smyth oedd yn dathlu ei 90 ar ddydd Sadwrn 3 Ionawr. Symudodd Jane i'r Borth flwyddyn yn ôl i fyw gyda'i merch Rachel, gan ddychwelyd i'r pentref lle bu hi a'i phedair o ferched yn byw rhwng 1978 ac 1982.



Pen-blwydd hapus iawn hefyd i Rob Hunt oedd yn 70 oed ym mis Rhagfyr. Mae Rob yn un o hoelion wyth y clwb tenis bwrdd lleol ac yn ddiweddar mae wedi dechrau trefnu sesiynau *Pickleball* wythnosol yn y Neuadd Gymunedol.



**Teithiau Cerdded Ynys-las**
Mae teithiau cerdded natur yn cael eu trefnu bob dydd Mercher, gan gychwyn o Hyb Natur Ynyslas am 10:30. Croeso i bawb.

Cofiwch hefyd am y grŵp Dod Ynghyd ar gyfer oedolion hŷn sy'n cwrdd yn Hyb Cymunedol Y Borth ar Ffordd Clarach rhwng 2 a 4 bob prynhawn dydd Llun. Mae dewis o weithgareddau creadigol ar gael a chroeso cynnes i bawb.

## Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

### Catrin Pugh Jones

**Adran Hŷn y Dynion**
Dathlwyd llwyddiannau'r tymor yng nghinio Nadolig dynion yr adran hŷn. Cyflwynwyd tlysau'r cystadlaethau gan gapten adran hŷn y dynion, Jeff Evans. Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd.
Tlws yr Adran Hŷn - Darren Phillips
Cwpan y Feteraniaid - Jeff Evans
Cystadleuaeth Eggs / Ashes - Harri Jones
Cystadleuaeth Knockout yr Haf - Charlie Taylor
Tlws y Gaeaf - Dave Beale
Hambwrdd Arian Philip Morgan - Dave Beale & Ewen Davies






**Cystadleuaeth Elusen Y Capteiniaid**
Daeth 14 o dîmau ynghyd ar ddydd Sul 28 Rhagfyr i gefnogi cystadleuaeth elusen y capteiniaid ar gyfer timau o dri yn chwarae gyda phêl felen neu binc am bwyntiau ychwaneol. Casglwyd cyfanswm o £234.20 mewn cyfraniadau tuag at elusennau dethol y ddau gapten sef StopMS ac Ymchwil Canser Cymru.

Yn fuddugol roedd y ddau gyn gapten Helen Lewis a Nick Downing, a Nathalie Bowen, un o aelodau newydd y clwb o dan y cynllun N2G.

Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr.

1af Helen Lewis Nick Downing a Nathalie Bowen - 136 pwynt
2ail Graham Saunders, Liam Haynes a Daniel Basnett - 124 pwynt
3ydd Esther Prytherch, Rhys Prytherch a Rhodri Edwards - 119 pwynt







Lluniau: Rhodri Edwards

## Eira Mawr

Anaml y gwelir eira ar draeth Y Borth ond dyna'r olygfa oedd yn ein disgwyl ddechrau'r flwyddyn wrth i dywydd gaeafol o'r gogledd daro'r ardal. Cafwyd eira ar ddydd Sadwrn 3 a dydd Sul 4 Ionawr, gydag amodau gyrru hynod anodd ar ddydd Llun 5 Ionawr. Fe lithrodd un car yn ôl i lawr Ffordd Clarach gan fwrw drwy wal gardd Ceri Ashley ar waelod y rhiw. Yn ffodus, ni chafodd y dyn a'r plentyn oedd yn y cerbyd ei anafu.

Roedd yn ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd i athrawon ddydd Llun 5 Ionawr ond bu'n rhaid cadw plant draw o Ysgol Craig yr Wylfa ddydd Mawrth 6 Ionawr hefyd oherwydd y tywydd rhewllyd. Caewyd y cwrs golff a Hyb Cymunedol Y Borth hefyd a gohiriwyd cyfarfod misol Cyngor Cymuned Y Borth ar nos Lun 5 Ionawr tan nos Lun 12 Ionawr. Manteisiodd ambell un ar y cyfle prin i ymafer eu sgiliau sgio a sledio ar y llethrau gwyn uwchlaw'r pentref.

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**
*Ionawr*
**25** Dr. Watcyn James, 2.00

*Chwefror*
**1** Mr. Huw Roderick 10.00
**8** Dr. Watcyn James 10.00
**15** Parch Ifan Mason Davies 10.00
**22** Parch Wyn Rhys Morris yng Nghapel y Garn am 10.00

Croeso cynnes i bob un.

**Graddio o Brifysgol Caerloyw**
Llongyfarchiadau cynnes i Laura Jones Williams, Penlan Olau, ar raddio efo gradd 2.1 (Anrh) mewn Therapi Chwaraeon o Brifysgol Caerloyw. Wedi treulio tair mlynedd yma, fe gynhaliwyd y Seremoni Raddio yn Cheltenham Racecourse ar yr 21ain o Dachwedd, 2025.

Mae Laura yn gweithio yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth fel Prif Therapydd Chwaraeon ar hyn o bryd ond yn ychwanegol at hyn mae wedi dechrau busnes ei hun o'r new LJW Sports Therapy. Da ynte, gweld ein pobl ifanc yn mentro i fyd busnes fel yma, pan maent yn sylweddoli yr eisiau am y math yma o driniaeth. Ymlaen bo'r nod.



**Rhaglen o Japan**
Hyfryd oedd gweld un o'n hogiau ni, sef Gareth Jenkins, yn ymddangos ar raglen Chris, "Llond Bol o Japan", ble 'roedd yn coginio yno. Mae Gareth a'i deulu wedi ymgartrefu yno ers blynyddoedd bellach, wedi iddo briodi â merch o Japan. Mae ganddynt ddau o blant ac mae ei ferch wedi dod trosodd i Brydain eleni i astudio ym Mhrifysgol Leeds, ble mae yn astudio Gwyddoniaeth Bwyd Ac iechyd. Dymuniadau gorau iddi a chofion at y teulu cyfan. 'Rwy'n siwr i Nain fwynhau y rhaglen yn fawr.

**Gadael 2025**
Wrth i ni ffarwelio â blwyddyn 2025, edrychwn ymlaen yn eiddgar at 2026, dymunwn flwyddyn Newydd llawn bendithion i holl ddarllenwyr y Tincer. Roedd yn hyfryd cael croesawu, Martha a Celt, Elsi a Manon ac Ela ar ddydd cyntaf y flwyddyn. Mae'r traddodiad yn prysur ddiflannu o'n hardaloedd, gwaetha'r modd. Cofiwn am yr arferiad o godi yn blygeiniol, er gwaetha'r tywydd, fel y gallem gerdded i'r ffermydd cyfagos a cheisio bod y cyntaf i'w cyfarch, a'r croeso yn gynnes bob amser. Roedd rhai o'r plant yn dilyn traddodiad eu cyn-deidiau pan y byddent hwythau yn dathlu'r Calennig pan yn tyfu lan. Hir y parhaed y traddodiad yn ein plith.

Hyfryd, hefyd oedd mynychu Plygain Penrhyn-coch nos Iau cyn y Nadolig, a chlywed yr addoliad eto ar Ganiadaeth y Cysegr ar Sul olaf y flwyddyn. Os na chawsoch y siawns o fynychu eleni, os byw ac iach manteisiwch ar y cyfle yn 2026.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn, fel ardal, ein cydymdeimlad dwysaf â'r Parchg a Mrs. Watcyn James a'r teulu wrth i Lowri golli ei mam ym mis Hydref. Roedd Mrs. Nesta Davies yn byw yng Nghaerfyrddin. 'Rydych yn ein meddyliau a'n gweddïau ar yr adeg drist yma yn eich hanes.



**Rygbi**
Bu gêm rygbi Dydd San Steffan yn gyfle i ddathlu ac i gofio pan ddaeth y dyrfa fwyaf mewn cof i wylio'r hanner canfed gêm rhwng Athletic Aberystwyth a Thregaron. Roedd yn braf i weld cannoedd yn gwylio a mawr yw'r diolch i Glwb Tregaron am ddod a chymaint o gefnogwyr lan i Aber. Roedd hefyd yn achlysur i'r ddau glwb gofio Dewi Gwynne. Mae'r lechen er cof amdano yn nwylo Aber am y flwyddyn ac roedd hi'n hyfryd cael Anne, mam Dewi a Deian ei fab hynaf yna i gyflwyno'r tlws i'r capten buddugol Rowan Edwards.


GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com


# Llandre

**Pen blwydd arbennig**
Cyfarchion i Huw Ceiriog, Nant y Mynydd, fu'n dathlu pen blwydd arbennig ar 6 Ionawr.

**Cydymdeimlad**
Bu farw Anne Lewis, gynt o Cil-Y-Deri, Lôn Glanfred, Llandre , yn heddychlon efo'i theulu wrth ei hochr, ar yr 22ain o Dachwedd yng Nghefn Maes, Sanclêr, ar ôl salwch hir. Roedd Anne yn wraig gariadus i Len a mam annwyl i Shaun, Sandie a Joseph. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

**Cangen Merched y Wawr Genau'r-glyn**
Mae Cangen Merched y Wawr Genau'r-glyn yn cynnal Bore Coffi Pinc ym Methlehem Llandre fore Sadwrn 14/3/26 am 10.30yb. Agorir y bore gan Bethan Picton-Davies y Llywydd Cenedlaethol gyda'r elw yn mynd tuag at brosiect y Llywydd sef Elusen Canser Cymru a Chanser y Fron. Croeso cynnes i bawb.

# Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Gŵyl o Goed Nadolig ar brynhawn dydd Gwener 12fed o Ragfyr tan prynhawn dydd Sul y 14eg yn yr Eglwys. Hyfryd oedd gweld cymaint o goed Nadolig wedi eu haddurno ar y thema ailgylchu. Cymerwyd rhan gan Gapel Pen-llwyn, Cyngor Cymuned Melindwr, Cymdeithas o Gwmrheidol, Merched y Wawr Melindwr, Sefydliad y Merched Pen-llwyn, Ysgol Gynradd Pen-llwyn a Chlwb, ac Eglwys Dewi Sant. Roedd y coed i gyd yn wahanol iawn i'w gilydd ac yn wledd i'r llygaid.

Ar nos Sul, 21ain o Ragfyr 2025, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yng Ngolau'r Gannwyll dan arweiniad Y Barchedig Heather Evans. Darllenwyd y llithiau gan Lowri Jones, Meryl Tomkinson, Luned Jones, Sarah Hughes, Tomos Jones a'r Barchedig Heather Evans. Cafwyd unawd hyfryd gan Jac Hughes ar y ffidil. Yr organydd amryddawn a bendigedig oedd Mr David Evans. Braf oedd gweld aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn bresennol. Ar ddiwedd y noson cafwyd gwin cynnes a mins pei ac hefyd mi dynnwyd y raffl Nadolig cyn mynd tuag adref. Rhoddwyd y casgliad tuag at Fyddin yr Iachawdwriaeth yn Aberystwyth.

Ar ddydd Nadolig, cafwyd gwasanaeth Cymun Bendigaid ar fore Iau am 10.30 yng ngofal Y Barchedig Heather Evans. Hyfryd oedd gweld aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn bresennol.

Braf iawn oedd gweld y coed Nadolig a'r holl adduriadau Nadolig i fyny erbyn y digwyddiadau. Hyfrydwch a llawenydd oedd gweld tyrfa dda, wedi troi am allan ar y digwyddiadau Nadoligaidd. Diolch i bawb am eich cymorth a'ch gwaith bendigedig.




Merched y Wawr, Melindwr



Sefydliad y Merched Pen-llwyn





Ysgol Gynradd Pen-llwyn a'r Clwb



Cyngor Cymuned Melindwr



Cymdeithas o Gwmrheidol



Eglwys Dewi Sant




Capel Penllwyn

# Canlyniad cystadleuaeth Bl 5 a 6: Mae gen i freuddwyd...

1af **Ifan**: Gyrrwr lorri
Llinell agoriadol
Iaith sy'n perswadio
rhesymau
yn gryno
diddanu'r darllenwr efo hiwmor
cymhariaeth (efo Macsen Wledig)
diweddglo – Am freuddwyd ffantastig!

2ail **Millie**: Cheerleading
agoriad
iaith sy'n perswadio
rhesymau
cynnwys diddorol
rhannu gwybodaeth
diweddglo cryno

3ydd **Anest Emlyn**: Helpu'r tlawd
brawddeg agoriadol
rhesymau
cwestiynau
iaith sy'n perswadio
cynnwys diddorol- pantomeim Aberystwyth yn sôn am helpu'r tlawd eleni.
diweddglo da

Pleser oedd darllen gwaith pawb. Daliwch ati i ysgrifennu. Diolch yn fawr iawn.
**Elin Elliott**





Llongyfarchiadau i'r tri - disgyblion yn Ysgol Penrhyn-coch – sydd yn ennill tocynau llyfr £15, £10 a £5. Beirniad eleni yw Elin Elliott (nèe Lewis). Fe'i magwyd yn Nhyncwm, Capel Dewi (Elin Tyncwm) gan fynychu Ysgol Penrhyn-coch. Bu'n athrawes yn ysgolion Plascrug, Llancynfelyn a Rhydypennau (yng nghyfnod Eddie Jones) ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Symudodd i fyw i ardal Caerloyw (Gloucester) oherwydd gwaith ei gŵr oedd yn yr Adran Gemeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n tanysgrifio i'r Tincer. Diolch iddi am feirniadu.

# Noson y 'Watchnight'

**Dros y gwyliau cyhoeddodd ein Cadeirydd, Richard Owen, ar ei dudalen Facebook ei atgofion am noson y 'watchnight' yng ngogledd Môn. Dyma rannu ei sylwadau.**

Un o'r atgofion hapusaf sydd gen i o ddyddiau plentyndod yw'r digwyddiad a gaem yn Jerwsalem (MC), Mynydd Mechell, ar noson ola'r flwyddyn ddechrau'r chwedegau, sef noson y Watchnight.

Yn llofft y capel y cynhelid y Watchnight. Efallai fod rhai ohonoch yn anghyfarwydd â'r term 'llofft y capel'. Yr hyn ydyw yw festri neu ysgoldy, ar gyfer digwyddiadau heblaw gwasanaethau arferol. Fe'i gelwid yn 'llofft' achos ei bod wedi'i hadeiladu uwchben y stablau, a oedd yn dyddio o'r cyfnod pan oedd pobl yn defnyddio ceffylau a char-a-cheffyl i fynd o gwmpas. Erbyn dechrau'r 1960au roedd y cyfnod hwnnw wedi hen fynd heibio, a'r unig ddefnydd i'r stablau oedd ar gyfer storio rhai pethau. Mae sawl llofft capel ym Môn, ac mewn siroedd eraill, siwr o fod.

Roedd y Llofft yn stafell eithaf eang ar siâp L, gyda grisiau yn codi iddi o'r cowt oedd o flaen y capel. Roedd dwy ran i'r Watchnight, y bwyd a wedyn yr adloniant. Cyn y bwyd byddem ni blant yn cael cyfle i chwarae a rafio ar y cowt ac i lawr yn y stabl, os oedd hi'n sych. Dydw i ddim yn siŵr sawl noson Watchnight yr ydw i'n eu cofio, ond yn fy nghof roedd pob un yn sych ac oer a serog!



Pan fyddai'r bwyd yn barod ymlaen â ni at y byrddau. Y gwragedd fyddai wedi paratoi'r bwyd wrth gwrs: brechdanau o wahanol fathau - ham, samon, wyau, caws - jeli a blymonj a ffrwythau tun, teisennau amrywiol, a galwyni o de wrth gwrs, yn dod o depotiau mawr gloyw a ninnau'n yfed o gwpanau gyda enw'r capel arnynt.

Ar ôl y bwyd, fe fyddai yna dipyn o adloniant. Rwy'n cofio Glyn Williams (Glyn Pen-sarn) a chriw gydag o yn ein diddanu un flwyddyn. Wedi'r adloniant fe gaem yr unig elfen grefyddol oedd yn perthyn i'r digwyddiad, sef cael ein gweddïo i mewn i'r flwyddyn newydd. Rwy'n cofio'r Parchg Emlyn John yn cyflawni'r ddefod hon. Mae'n rhaid fod hynny ar adeg pan nad oedd gweinidog yn Jerwsalem, achos gweinidog Bedyddwyr yr ardal oedd Emlyn, ond roedd un o'i gapeli yntau yn y Mynydd, felly roedd yn adnabod pawb. Tra byddai'r gweinidog yn gweddîo, byddai rhywun yn gwrando ar y radio'n dawel er mwyn rhoi arwydd iddo fod Big Ben ar fin taro'r flwyddyn newydd, a phawb wedyn yn dymuno blwyddyn newydd dda i'w gilydd.

Ar ôl hynny ei throi hi am adref. Rhai yn troi i'r chwith i lawr i gyfeiriad y pentref, ac eraill ohonom yn mynd i'r dde i gyfeiriad top Mynydd Mechell. Y ffordd honno oedd Tŷ Hen lle cefais fy magu nes oeddwn yn ddeg oed. Cychwyn o'r capel, ac yna ffarwelio efo pawb yn eu tro fel y cyrhaeddem y gwahanol lefydd neu'r lonydd bach oedd yn mynd atynt. Y Fodlas (Hafod Las), Pen Llyn, Gorffwysfa a Glynbwch, ac yna'r tro am Dŷ Hen a Llanfflewyn a'r Fron. Y gweddill yn mynd yn eu blaenau i Fryn Du, Bryn Awel, Yr Ogof, Fron Deg, Penymynydd a Thwll Clawdd ac ambell fan pellach hefyd. Anaml ers hynny y cefais i yr un teimlad cynnes o gymdeithas ac o berthyn ag a gofiaf ei deimlo ar y nosweithiau perffaith hynny.
**Richard Owen**

**Cafodd ymateb gan gyfeillion oedd yn cofio digwyddiad tebyg ar Ynys Môn a Llanelli. Tybed oedd hyn yn arfer yng Ngheredigion – oes rhywun o'n darllenwyr yn cofio un?**

# Athrawes yn Ariannin





Ar ôl treulio 10 mis arall yn yr Ariannin gyda fy merch i Eleanor, 'dyn ni wedi dod yn ôl i'r Borth ar gyfer y gaeaf ac wrth gwrs i ddathlu'r Nadolig gyda'r teulu. Y tro hwn yn Nhrefelin roedden ni'n byw, rhyw 600km tua'r gorllewin o'r Gaiman lle treulion ni 10 mis difyr nôl yn 2023. Roedd hi'n braf iawn cael byw mewn tref fach hyfryd wedi'i hamgylchynu gyda mynyddoedd yr Andes. Maen nhw mor fawr ac yn wirioneddol arbennig, bron cystal â golygfa'r môr sydd gyda fi yn fy ystafell wely yma'n y Borth!

Bydda i ac Eleanor yn dychwelyd i'r Ariannin ar ddiwedd mis Chwefror ond y tro hwn byddwn yn mynd yn ôl tua'r dwyrain ac i Drelew y tro yma lle bydda i'n gweithio fel athrawes Gymraeg yn Ysgol yr Hendre a bydd Eleanor yn dechrau blwyddyn 3 yno.

Cwestiwn sy'n cael ei ofyn i mi yn aml ydi beth ydi'r apêl i fynd yn ôl i Batagonia? Y gwir yw ei fod yn hwyl ac yn ddiddorol. I fi mae'n hwyl mynd am antur, mae'n hwyl cwrdd â phobl newydd ac mae'n hwyl dysgu iaith. 'Dyn ni'n dwy yn siarad Sbaeneg yn rhugl erbyn hyn (Eleanor yn llawer gwell 'na fi... rhywbeth sy'n deffro teimlad braf iawn o falchder a syndod ar yr un pryd). Mae hefyd jyst yn ddiddorol tu hwnt bod pobl yn siarad Cymraeg mewn gwlad sydd mor bell i ffwrdd o Gymru. Yn ogystal â bod yn ddiddorol dw i'n meddwl ei fod e'n andros o *cool* bod plant a phobl ifanc allan yna efo cymaint o ddiddordeb i ddysgu am ein hiaith a'n diwylliant, traddodiadol a chyfoes a bod athrawon o Gymru ac o fan draw wedi ysbrydoli'r bobl yma.

Gyda'r dathliadau diweddar o groesawu'r flwyddyn newydd, dw i wedi bod yn meddwl am rai o fy uchafbwyntiau i eleni:

1. Teithio i Igauzú dros wyliau'r gaeaf. O bosib y lle mwyaf trawiadol dw i erioed wedi bod.
2. Rhywun o Brasil yn gofyn i mi am gyfarwyddiadau mewn Portiwgaeg ar y *Subte* yn Buenos Aires a fi yn deall pob gair ond yn ateb yn hyderus mewn Sbaeneg - pleser pur. Haha!
3. Cyrraedd adre'n hwyr ar y 23ain o Ragfyr ac Eleanor a'i chyfnither Anoushka yn neidio i mewn i freichiau ei gilydd, yn chwarae fel petai 10 mis erioed wedi pasio ac yn cwympo i gysgu ynghyd yn hapus eu byd ac yn cysgu drwy'r nos. Dyna beth oedd llawenydd!

Felly fel un o drigolion y Borth ac yn hoff iawn o blymio i mewn i'r môr yma sydd ar fy stepen ddrws, bydd hi'n braf iawn bod yn gymharol agos i draeth Playa Unión yn 2026 ac yn medru gwneud defnydd da o'r Dry Robe ges i fel anrheg pen blwydd ddwy flynedd yn ôl. Byddwn ni'n hiraethu am ein ffrindiau yn Nhrefelin, y Borth ac Aberystwyth, a'r teulu hefyd wrth gwrs, ond 'dyn ni'n ffodus iawn i gael teithio a byddwn ni'n gwneud yn fawr ac yn mwynhau'r cyfle arbennig yma sydd gyda ni. ¡Vamos 2026!

**Lleucu Haf**

## Ysgol **Penweddig**



Llongyfarchiadau i Steffan a Gruffydd a phob dymuniad da i'r ddau gyda Band Pres Cenedlaethol Cymru.

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# ‘Ganwyd Iesu’

Mae’n arfer gennym yn Horeb ganu carolau o Sul cyntaf yr adfent ymlaen yn flynyddol. Un a genir yn aml - am sawl rheswm - yw ‘ Ganwyd Iesu nyddiau Herod’ *Caneuon Ffydd* 477.
Un rheswm yw mai dyna un o hoff garolau y Parchg Peter Thomas.

Meddai “Ymhlith fy hoff garolau y mae carol W.R.P. George: “Ganwyd Iesu’n nyddiau Herod, ganwyd Iesu’n Frenin nef..” a’i neges yn acennu’r stori oesol a’r anogaeth inni “rhoi ein moliant uwch ei breseb, mae gogoniant yn ei wyneb, wyneb Iesu, wyneb Iesu, Brenin nef.”

Ond yr hyn a wna›r garol yn arbennig i mi ydyw›r atgofion fydd gennyf. Fe’i canwyd yn wefreiddiol gan Catrin Hughes ac Elen Môn yn ngwasanaeth Nadolig y myfyrwyr ym Methel, Aberystwyth yn ystod blynyddoedd cynnar fy ngweinidogaeth yma, ac fe’i canwyd bob Nadolig gan Rhun Owens am flynyddoedd a›i lais bariton yn grymuso›r gân. Y mae’r atgofion hynny rywsut yn rhan o wefr y garol o’i chanu.

Mae tymor yr Ystwyll yn cychwyn ar y 6ed dydd o Ionawr, deuddeng niwrnod wedi’r Nadolig a chymwynas yr Ystwyll ydyw cyrchu i flwyddyn newydd gyffro a chyfaredd Gŵyl y Geni; i chwyddo’r fflam fel petai cyn ei diffodd tan y daw’r Nadolig unwaith eto i’r drws. A stori ryfeddol y doethion o’r dwyrain sy’n rhoi amlygrwydd i’r digwydd. Y doethion a ddilynodd y Seren ar ei chyfodiad ac a ddaethant i addoli’r Un a aned ym Methlehem yn nyddiau’r brenin Herod gan offrymu iddo anrhegion o aur a thus a myrr.

Rhywsut neu’i gilydd, a hynny’n gwbl ddiarwybod iddo mae’n siŵr, ma’r hyn a ddywedodd Herod wrth y doethion yn anogaeth i fyd cyfan - “Ewch a chwiliwch yn fanwl am y plentyn...” Syndod, ond tyfe? Cyfrwystra bwli yn troi’n gyfle, ac os bu ymadrodd dadlennol erioed, wel dyma ef, sef yr anogaeth inni chwilio am yr un sy’n rhoi ystyr a gwerth i’n dathlu a chwilio’n fanwl nes ei ddarganfod.

Rheswm arall ei chanu oedd fod awdur yr alaw – Eirlys Pierce – yn gyfnither i Ceri Williams- cyn-aelod ac athrawes Ysgol Sul yn Horeb. Roedd Eirlys Pierce (nèe Williams) Llanrug (1946-2008) yn athrawes yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Bu hi ac Arwel Jones (Hogia’r Wyddfa) yn cydweithio a chyhoeddwyd *Ugain o gerddi i gyfeiliant gitâr (*Llyfrau’r Dryw*, 1972*) lle’r ymddangosodd ‘Ganwyd Iesu’ – a hefyd ei chân enwocaf, efallai Titw Tomos Las ar eiriau T. Llew Jones.

Recordiwyd y garol gan Leah Owen a Hogia’r Ddwylan, Y Tri Tenor, y London Welsh Chorale (ar drefniant cerddorol gwahanol), Trey ac Amelia McCain a chynulleidfa capel Caersalem, Caernarfon ac mae ar y record *10 cân efo Plant Llanbêr.*

Pan recordiwyd y garol am y tro cyntaf gan Hogia’r Wyddfa yn Llandwrog roedd WRP George ac Eirlys Pierce yn bresennol.

Yn rhifyn Rhagfyr 2025 o *Cronicl Misol Eglwys y Tabernacl* (Caerdydd) mae Manon George, un o’r aelodau a wyres W R P George yn sôn am ‘Ganwyd Iesu’ fel ei hoff emyn. Diolch i Manon a Llinos Metcalf, golygydd y *Cronicl* am ganiatâd i ddyfynu detholiad yna.

“Ysgrifennwyd y garol yn ystod y 1950au ac fe’i canwyd am y tro cyntaf mewn oedfaon Nadolig yng nghapel (Bedyddwyr) Berea, Cricieth, lle’r oedd fy nhaid yn aelod. Tri phennill oedd i’r garol yn wreiddiol, sef penillion 1, 3 a 4. Mae’n debyg bod Taid yn meddwl bod angen pennill ychwanegol i gyfleu’r ‘llawenydd mawr dros ben’ y cyfeirir ato ym Mathew 2:10. Dwi’n hoffi meddwl bod lluniad yr ail bennill efallai’n cyd-fynd â’i lawenydd mawr o ddod yn Daid am y tro cyntaf, gan mai yn ei gyfrol *Dringo’r Ysgol* (Cyhoeddiadau Barddas,1989) y ceir y garol yn ei ffurf bresennol. Cyfrol a gyflwynwyd ‘I’m gwraig Greta – “Nain” bellach’.

Yn ystod fy magwraeth, roedd cyfnod y Nadolig yn bwysig yng nghartref Nain a Taid yng Ngarthcelyn, Cricieth. Un o Nuremberg, yr Almaen, oedd Nain, lleoliad un o farchnadoedd Nadolig hynaf a mwyaf enwog y byd. Mae gen i atgofion arbennig iawn o ymweld â’r Christkindlesmarkt, a dwi’n gobeithio bydd cyfle i fynd ag Esther a Greta yno un dydd iddyn nhw hefyd brofi hud a hanes dinas enedigol eu hen nain.




Roedd Garthcelyn werth ei weld bob blwyddyn gydag addurniadau o’r Christkindlesmarkt yn harddu a goleuo’r lle, heb sôn am lond y tŷ o gacennau a bisgedi Nadolig. Bu farw Nain, neu Oma fel yr oedd Esther yn ei hadnabod, yn dawel yn ei chwsg ar gychwyn Adfent 2022. Y diwrnod hwnnw, roedd hi wedi addurno’r tŷ o’r top i’r gwaelod, ac roedd y danteithion tymhorol yn hen barod. Yn yr un wythnos, fe wnaethon ni ddarganfod ein bod yn disgwyl ein hail blentyn, ac roedd galw ein merch fach yn Greta felly’n ddewis naturiol. Efallai bod canu carol mewn angladd, fel wnaethon ni wrth ffarwelio â Nain, yn beth anarferol i wneud, ond daeth canu geiriau Taid â llawer o gysur i ni fel teulu y diwrnod hwnnw. Yn yr un modd, mae canu’r garol yng Nghapel yTraeth, Cricieth, neu yn Tab yn ystod mis Rhagfyr yn denu atgofion cynnes, ac ambell ddeigryn. Dwi’n sicr y byddai Taid wrth ei fodd yn meddwl am ei ddwy or-wyres fach wedi gwisgo fel angylion yn canu ei garol yn nrama Nadolig plant y Tabernacl y llynedd.

I berson a fagwyd yng nghyfnod erchyll y 1930au a’r 1940au yn yr Almaen, roedd hanes y geni gwyrthiol a bod goleuni yn trechu’r tywyllwch mwyaf yn sail gadarn i fywyd Nain. Ganwyd Iesu’n nyddiau Herod. Daeth Iesu i fyd yr unben, i fyd llawn creulondeb, i fyd sy’n anhygoel o debyg i’n byd ni heddiw. Ganwyd Iesu’n nyddiau Hitler a Putin hefyd. Ond ganwyd i fyd o garedigrwydd mawr—i fyd rhoddion y bugeiliaid a’r doethion. Mae’r ddeuoliaeth hynny’n parhau o oes i oes.

Yn y geni gwyrthiol ym Methlehem, gwelwn ŵyneb Iesu sy’n Frenin nef. Edrychaf ymlaen i gyflwyno’r garol unwaith eto eleni i Esther a Greta, ein trysor ni, gan obeithio y gwnawn nhw hefyd ddilyn eu hen neiniau a theidiau gan ganu ‘a thra rhodiom lwybrau daear / Iesu Grist fo’n brenin ni.’

**Manon George, Caerdydd**

Cyhoeddwyd trefniant E. Olwen Jones o’r garol yn *Caneuon Ffydd (2001); Y Baban yn geidwad byd:* cyfrol o ychydig dros gant o garolau hen a newydd. |( Tabernacl, Caerdydd, 2020); *Awn i Fethlem* (Gwasg Pantycelyn, 1982) *a Clychau’r Nadolig* (Gwasg Pantycelyn, 1992).



**Ceri Williams a’r mab Gareth ap Rhisiart ar ymweliad diweddar â’r Gaiman, Patagonia yn nhŷ Te Tŷ Gwyn.**

# Cardiau Tegwyn

Petaech chi'n cerdded i mewn i gyntedd ein tŷ ni ac yn gweld dau gwpwrdd gwydr ac un silff grog yn llawn o lestri, digon tebyg y credech chi fy mod yn gasglwr brwd o lestri cain. Ond nid felly mae hi. Etifeddu'r rhain a wnes i, a'r celfi sy'n eu harddangos o ran hynny, gan fy mam, a oedd yn gasglwr llestri. Un o bleserau bywyd iddi hi oedd crwydro o gwmpas adran lestri ardderchog siop Howells Caerdydd gynt ac edmygu'r arddangosfa o lestri gwneuthurwyr enwog fel Minton, Wedgwood a Spode. Edmygu o hirbell a wnâi hi, ond ddwywaith y flwyddyn, mewn sêl, byddai'n chwilota am fargeinion. Trwy wneud hyn, dros y blynyddoedd, fe gasglodd ynghyd set o ddwsin, (ac iddi hi dwsin oedd mewn set, nid chwech), o lestri Royal Albert mewn patrwm a elwid yn Heritage, a'r llestri hynny sydd erbyn hyn yn llenwi un o'r cypyrddau gwydr, er mawr bleser i mi y mae'n rhaid dweud. Ond nid myfi a'u casglodd.

Ond os nad wyf yn gasglwr, mae'n debyg y gellid dweud fy mod yn geidwad, oherwydd yr wyf wedi cadw yn ofalus gasgliad y blynyddoedd o gardiau Nadolig arbennig. Cardiau yw'r rhain a gyrhaeddodd o flwyddyn i flwyddyn gan gyfeillion inni, sef Beti a Tegwyn Jones. Daeth Gwynn a minnau i adnabod y ddau pan oeddem yn fyfyrwyr yn Aberystwyth. Ar y pryd, roedd Beti yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, a Tegwyn yn gweithio ar staff Geiriadur Prifysgol Cymru, hefyd yn y Llyfrgell. Un o Frynaman yw Beti (Morgan) – modryb erbyn hyn i Jac, capten tîm rygbi Cymru – a Tegwyn yn hanu o ogledd Ceredigion.

Ysgolhaig yw Tegwyn, un sy'n fawr ei wybodaeth am hanes a llên Cymru. Mae hefyd yn artist ac yn gartwnydd sydd wedi cyfrannu at nifer o gyhoeddiadau Cymraeg. Mae wedi dod â'r doniau hyn at ei gilydd mewn cyfres nodedig o gardiau Nadolig o'i gynllun ei hun.


Un o fân dasgau mis Ionawr bob blwyddyn yw cael gwared â'r cardiau sydd wedi cyrraedd y Nadolig hwnnw. Rhaid cyfaddef fod y gorchwyl hwn yn mynd yn fwy anodd o flwyddyn i flwyddyn, gan fod diwyg cardiau Cymraeg yn mynd yn fwy deniadol o hyd, ac anodd felly yw eu taflu. Ond mae un cerdyn nad oes modd ei daflu, a'r cerdyn hwnnw yw'r un a ddaw o Bow Street o law Beti a Tegwyn.

Cyrhaeddodd y cyntaf ohonynt bron i ddeugain mlynedd yn ôl bellach ac yr wyf wedi eu cadw bob un yn ofalus ers hynny. Dyluniadau ydynt mewn pen ac inc gydag ychydig o liw, coch neu wyrdd yn aml, wedi ei ychwanegu weithiau. Mae Tegwyn hefyd yn defnyddio llythrennu cain, ac mae honno yn nodwedd sy'n arbennig o hoff gen i.

Mae'r cardiau yn tynnu ar achlysuron arbennig yn hanes Cymru, yn arbennig ein hanes crefyddol ni. Yn 1988, er enghraifft, fe ddaeth y cerdyn hyfryd hwn o Tŷ Mawr Wybrnant, cartref yr Esgob William Morgan, ar achlysur dathlu pedwarcanmlwyddiant cyhoeddi'r Beibl cyflawn yn Gymraeg. Dan y llun o'r cartref, fe geir dyfyniad nid o'r Beibl fel y mae heddiw ond o fersiwn yr Esgob ei hun.

Yn 1991 wedyn cafwyd dathlu daucanmlwyddiant marw Williams Pantycelyn gyda llun o'r ffermdy enwog oedd yn gartref iddo, a dyfyniad ar y ddalen flaen a'r tu mewn o eiriau cwbl briodol i'r Nadolig: "Ymhlith holl ryfeddodau'r nef/ Hwn yw y mwyaf un/ Gweld yr anfeidrol dwyfol Fod/ Yn gwisgo natur dyn."

Ond nid dathlu'r mawrion yn unig y mae Tegwyn yn ei gardiau. Hoff ganddo ddarlunio eglwysi a chapeli bychain gwledig Ceredigion a'r tu hwnt. Un enghraifft ddiddorol




yw'r cerdyn sy'n darlunio un o achosion "y Smotyn Du", sef capel Undodaidd Rhyd-y-gwin, ger Llambed, a'r geiriau o dan y llun yn gyfieithiad gan Selyf Roberts o eiriau Johann Tauler (c.1330-61): "Fe anwyd baban bychan/ Mewn stabl ym Methlehem dref/ Dros ddyn fe'i rhoes ei hunan/ Ein gobaith byth yw Ef."

Ond er mor hyfryd yw'r lluniau pen-ac-inc, fy hoff gardiau yw'r rhai sy'n seiliedig ar doriadau leino. Mae eu diwyg dramatig a chadarn yn apelio'n fawr ataf. Daeth nifer o'r cardiau hyn atom, yn eu plith gerdyn deniadol iawn yn darlunio plwyfolion yn cerdded i wasanaeth y plygain mewn eglwys fechan wledig, ac un arall yn darlunio capel Hen Bethel, Garnant (yn ardal Beti), lle y cynhelir plygain bob bore Nadolig.

Cyrhaeddodd fy hoff doriad leino yn y flwyddyn 2000, sef blwyddyn chwechanmlwyddiant gwrthryfel Glyndŵr. Mae'r cerdyn yn darlunio Owain ar gefn ei geffyl yn barod i'r frwydr ac o dan y llun mae'r llinell broffwydol enwog "Myn Duw mi a wn y daw".

Braint fu derbyn y cardiau hyn ar hyd y blynyddoedd. Maent yn ddrych arbennig o'n traddodiadau a'n hamserau.


**Branwen Jarvis**

Cyhoeddwyd yr erthygl yma yn *Y Wawr* 230 (Gaeaf 2025) - cylchgrawn Merched y Wawr. Diolch i'r awdur ac i'r Mudiad am ganiatâd i'w atgynhyrchu. Gyrrwn ein cofion cynnes at Beti a Tegwyn (golygydd cyntaf y Tincer) fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ym mis Mawrth.









# Ysgol Gymunedol **Penrhyn-coch a Pen-llwyn**

## Gyda'n Gilydd Gallwn Lwyddo!

**Blwyddyn Newydd Dda i Bawb!**
Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr *Y Tincer*! Mae'n braf clywed bod nifer o blant wedi mwynhau canu Calennig yn y gymuned dros y Nadolig. Os oes gennych luniau o'r diwrnod, cofiwch eu rhannu a thagio'r ysgolion ar Instagram.

**Sioe Nadolig**
Am wledd i'r glust a'r llygaid oedd ein cyngerdd Nadolig eleni! Roedd yn hyfryd gweld dwy ysgol yn dod at ei gilydd i berfformio ar lwyfan Ysgol Penweddig. Pob dosbarth yn cymryd eu tro, a'r plant yn wych. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi, yn arbennig i'r ddwy gymdeithas Rhieni ac Athrawon a fu'n cydweithio i ddarparu lluniaeth ysgafn a raffl i bob un.



**Gŵyl Chwaraeon**
Diolch i Geredigion Actif am gynnal gŵyl chwaraeon ardderchog ar Ragfyr 3ydd. Roedd digon o weithgareddau i'r plant roi cynnig arnynt, gan roi blas ar chwaraeon tu allan i oriau ysgol. Roedd hi'n fore braf o aeaf a mwynheuodd pawb yn fawr.

**Cyngerdd Nadolig Gwasanaeth Gerdd Ceredigion**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion a'r staff bu'n cymryd rhan yng nghyngerdd Nadolig Gwasanaeth Gerdd Ceredigion. Roedd Math, Gwern, Jack, Erin a Charn wedi chwarae yn arbennig yn y Gerddorfa. Da iawn i'r staff a gymerodd rhan mewn perfformiad arbennig o Atgof o'r Sêr o dan arweiniad Robat Arwyn.

**Bible Explorers**
Diolch i Annette am y gwersi ar y Testament Newydd i Ddosbarth Trafle a Dosbarth Disgwylfa. Roedd y plant wrth eu bodd yn actio rhannau o'r straeon. Hefyd, diolch enfawr i Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch am roddi Beiblau newydd i'r dosbarth, ac i Eglwys Dewi Sant Capel Bangor am y rhodd o Feiblau i ddisgyblion Ysgol Penllwyn.

**Sion Corn**
Diolch i'r CRhA am anrhegion i bob dosbarth ac i Garej Tŷ Mawr am y bocs siocled i bob plentyn!


**Siwmperi Nadolig**
Roedd yn hyfryd gweld llawer o siwmperi Nadoligaidd i godi arian at elusen Save the Children.



**Sioe Cyw**
Ar Ragfyr 3ydd, cafodd disgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 brofiad gwych yn gweld **Sioe Jingyl** yn Ysgol Penweddig. Roedd y bore yn llawn canu, dawnsio a chwerthin – hwyl i bawb!

**Gwe Cambrian Web**
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.

Cysylltwch heddiw!




GWE Cambrian WEB

cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

## Penrhyn-coch

**Cyfansoddi Cerdd Nadolig**
Diolch o galon i fardd lleol sef Mrs. Lowri Emlyn am ddod mewn i gyfansoddi cerdd Nadolig gyda Dosbarth Trafle (Bl. 4 a 5). Yr oedd y plant wedi mwynhau cyfansoddi'r gerdd a'i berfformio am y tro cyntaf yn ein cyngerdd Nadolig. Edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r gerdd yn y dyfodol. Dyma'r gerdd:

**Seren**
Ydych chi wedi clywed am y Seren?
Y Seren ym Methlehem?
Seren y Brenin Iesu yw hi
Yn ddisglair fel glityr,
Yn llachar fel y lleuad fawr a golau'r nef.
Mae'n arwain ni i'r stabl
I weld y Brenin Iesu.

Dewch gyda ni i ddilyn y Seren
I weld y Baban Iesu –
Mab Duw yn y crud
Yn anrheg mor ddrud.
Dewch gyda ni i ddilyn y Seren.

Ydych chi wedi clywed am tri gŵr doeth?
Y tri gŵr doeth o'r Dwyrain.
Yn dilyn Seren y Brenin
Yn chwyslyd, wedi blino, yn syllu ar y sêr
Gyda aur, thus a myrr
Yn anrhegion drud i'r Iesu.

Dewch gyda ni i ddilyn y Seren
I weld y Baban Iesu –
Mab Duw yn y crud
Yn anrheg mor ddrud.
Dewch gyda ni i ddilyn y Seren.

Gan Mrs. Lowri Emlyn a Disgyblion Dosbarth Trafle (Bl. 4 a 5)

**Canu yn y Cinio Cymuned**
Roedd yn braf cael perfformio yn y cinio cymuned yn Neuadd y Penrhyn. Diolch am eich rhodd hael iawn i'r ysgol.

**Dosbarth Brogynin**
Buodd Blwyddyn 6 yn gweithio'n galed i greu gwefan am sut i ddathlu Nadolig Gwyrdd. Bydd y lansiad yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Pob lwc iddynt!

**Bingo**
Noson lwyddiannus arall yn Neuadd y Penrhyn – codwyd swm arbennig o £1530! Diolch i Cathy, Sioned a Rhian Jones.

**Cinio Nadolig**
Diolch i Sara Hughes a Kirsty am y cinio Nadolig blasus, a diolch i'r swyddfa bost am gyfrannu'r cracer.

**Gwasanaeth Cristingl**
Clo perffaith i'r flwyddyn oedd y gwasanaeth Cristingl yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch. Diolch i'r Parch. Lynn Rees am y croeso.

**Dosbarth Drosgol**
Thema Dosbarth Drosgol (Blwyddyn 1) eleni oedd 'Bwyd Nadolig'. Fe ganodd bob un o'r plantos yn hyderus ac yn frwdfrydig ac roedd Miss Davenport yn falch iawn ohonynt! Dyma ychydig o luniau o'r plant cyn y perfformiad mawr!











## Penllwyn

**Mr Jones yn priodi!**
Llongyfarchiadau gwresog i Mr Jones ar ei briodas ar Ragfyr 21ain!

**Eglwys Dewi Sant**
Braf oedd cael ymweld ag Eglwys Dewi Sant Capel Bangor ar ddiwedd y tymor i weld ein Coeden Nadolig ar y cyd gyda'r clwb ar ôl ysgol wedi'i harddangos yng Ngŵyl Flynyddol Coed Nadolig yr Eglwys. Diolch am y bisgedi a'r croeso bendigedig. Diolch i'r parchedig Andrew Loat am gynnal ein Gwasanaeth Cristingl yn yr Eglwys ar ddiwrnod olaf y tymor. Roedd disgyblion wedi mwynhau mas draw creu Cristingl gyda'i brodyr a'i chwiorydd. Diolch i Garej Tŷ Mawr am gyfrannu'r orennau.

**Pared Llusern**
Diolch i Alice Briggs am ddarparu offer a deunydd i ddisgyblion cael creu eu llusern ei hun er mwyn cymryd rhan mewn pared llusern Aberystwyth.

**Canu Tesco**
Am wych oedd codi £350 tuag at yr ysgol o ganu yn Tesco'r wythnos cyn y Nadolig. Ymdrech arbennig! Diolch i Tesco am ganiatâi inni wneud.

**Cinio Nadolig**
Diolch i staff y gegin am drefnu a pharatoi cinio Nadolig blasus iawn!



**Cerddi Wedi'i Gyhoeddi**
Llongyfarchiadau gwresog i ddisgyblion Dosbarth Disgwylfa Ysgol Penllwyn a gafodd eu cerddi Saesneg wedi'i cyhoeddi fel rhan o gystadleuaeth 'Young Writers' mew neu gyfrol ddiweddaraf. Braf iawn gweld cerddi Haiku ein disgyblion wedi'i gyhoeddi.

# Ysgol **Rhydypennau**

**Hyfforddiant Beicio**
Yn ystod tymor yr Hydref bu disgyblion blwyddyn 6 yn cwblhau Cwrs Beicio. Roedd y cwrs dan ofalaeth Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys hyfforddiant am sut i feicio'n ddiogel ar y briffordd i ateb safonau cenedlaethol. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gwblhau'r hyfforddiant. Dyma lun ohonynt gyda'u tystysgrifau.





Blwyddyn 2 yn gyffrous

**Disgo'r GRhA**
Nos Fawrth 16eg o Ragfyr trefnodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddisgo i holl ddisgyblion yr ysgol yn Neuadd Rhydypennau. Roedd y neuadd yn fwrlwm o oleuadau a cherddoriaeth ac mae ein diolch yn fawr i bawb fu ynghlwm â'r trefnu. Diolch hefyd i noddwyr y noson ac i'r busnesau lleol gyfranodd wobrau ar gyfer y raffl.

**Ymddeoliad Mr Melfyn Jones**
Ar y 19eg o Ragfyr roeddem yn ffarwelio gyda Mr Melfyn Jones fel Dirprwy Bennaeth ac Athro Blwyddyn 6 yr ysgol a hynny wedi 23 o flynyddoedd yn y swydd. Diolch yn fawr Mr Jones am eich gwasanaeth di-flino, eich ymroddiad, cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch i ddisgyblion, staff a chymuned ehangach Ysgol Rhydypennau. Dymunwn bob dymuniad da am ymddeoliad hir a hapus i chi.



Elinor, Nel a Seren yn cyflwyno anrhegion i Mr Melfyn Jones ar ran staff a disgyblion yr ysgol

**Ymweliad gan Siôn Corn**
Ddiwrnod olaf y tymor daeth ymwelwyr pwysig i'r ysgol - Siôn Corn a'i gorrach, sef Mr Ken Edwards a'i wyres, Heledd Davies. Diolch yn fawr iddynt am roi eu hamser i ddod atom a sgwrsio gyda'r disgyblion. Roedd busnesau lleol wedi noddi siocledi ar gyfer pob dosbarth i Siôn Corn rannu ar y diwrnod – diolch yn fawr iawn iddynt am eu haelioni iawn yn gweld Siôn Corn



Siôn Corn a'i gorrach –
Ken Edwards a Heledd Davies

**Cyngherddau Nadolig**
Cawsom ddau gyngerdd Nadolig arbennig ddechrau mis Rhagfyr. Cynhaliwyd cyngerdd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn o flaen tyrfa dda yn neuadd yr ysgol ar y 9fed a'r 10fed o Ragfyr ac yna cyngerdd blynyddoedd 1-6 ar y 10fed o Ragfyr yng Nghapel y Garn. Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu perfformiadau gwych a diolch yn fawr i bawb ddaeth i gefnogi.



Disgyblion blwyddyn 1 i 6 yn perfformio yng Nghapel y Garn.



Y disgyblion meithrin yn barod i berfformio.

# Ysgol **Craig yr Wylfa**





**Paratoi at y Ffair Nadolig**

Bu'r plant yn brysur iawn yn paratoi nwyddau a gweithgareddau ar gyfer ein Ffair Nadolig. Roedd rhain yn cynnwys creu addurniadau a chardiau Nadolig, paratoi gemau hwyl a choginio bisgedi blasus iawn!

**Sioe Nadolig**

Ar y 9 fed o Ragfyr, cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn wrth i blant yr Ysgol berfformio sioe 'Y Grinchiau' yn Neuadd Gymunedol y Borth. Ar ôl yr holl waith caled, roedd y plant yn hynod o falch o'r perfformiad.

**Ffair Nadolig**

Yn ystod wythnos olaf y tymor cyn y Nadolig, llwyddodd y plant i godi tipyn o arian i'r ysgol wrth gynnal stondinau yn ein ffair Nadolig. Roedd yn brofiad gwerthfawr iawn wrth i'r plant ymarfer sgiliau menter a thrin arian.
























# Tasg y Tincer

Helô bawb, a gobeithio eich bod wedi cael Nadolig hyfryd. Roedd y gwyliau'n hirach na'r disgwyl, wedi i'r eira gyrraedd. Roedd pentrefi ardal Y Tincer yn edrych yn gwbl wahanol o dan flanced wen, drwchus. Wnes i adeiladu un dyn eira bach – wnaethoch chi?

Dyma'r tair fuodd yn lliwio dros gyfnod y gwyliau: Hannah Mai ac Alys, Penrhiw, Bow Street, ac Elsi Wynn Lewis, Capel Bangor. Dy enw di, Hannah, ddaeth o'r het yn gyntaf. Hwrê! Dwi'n siŵr y gwnei di rannu dy wobr ag Alys. Diolch am gystadlu. Roedd eich lluniau yn wych!


Hanna

Wnaethoch chi ddweud 'Blwyddyn newydd dda' ar 1 Ionawr? Wel, mae rhai llefydd yng Nghymru yn dathlu'r flwyddyn newydd ar ddyddiad arall. Mae Llandysul, yn ne Ceredigion, ac un ardal yn Sir Benfro, yn dathlu ar ganol Ionawr. Wir! A dyma adeg y Fari Lwyd – bydd honno ar daith yn Llandre ac Aberystwyth (gweler y Dyddiadur) cyn hir. Mae'n werth ei gweld. Ydych chi wedi clywed amdani? Beth am ddysgu mwy am y Fari Lwyd?



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Llun o ddyn eira sydd i'w liwio y mis hwn – ac mae gwobr hyfryd i'r enw cyntaf o'r het! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP, neu ei ebostio (anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 1 Chwefror. Ta ta tan toc, a chadwch yn glyd!



ISSN 0963-925X

9 770963 925009

Rhif 485 | Ionawr 2026